

Bywydeg

Pam astudio Bywydeg?

Mae Bioleg yn faes eang a chyffrous, sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o organebau byw ymhellach. Bydd cyfle i wneud amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, gan gynnwys dyraniadau a gwaith microsgop. Bydd y disgyblion yn datblygu ystod o sgiliau, megis datrys problemau, dadansoddi data a sgiliau mathemategol. Bydd eich gwersi yn ymdrin â phynciau cyffrous, yn amrywio o fioleg foleciwlaidd i astudio ecosystemau, ac o ficro-organebau i famothiaid.

Gofynion y cwrs

Rhaid i ddisgyblion sy'n gwneud cais i astudio Bioleg fod wedi cyflawni gradd B neu well mewn TGAU Bioleg neu Wyddoniaeth Dyfarniad Dwbl, haen uwch.

Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

UG

Uned 1: Arholiad ysgrifenedig:

1½ awr (80 marc - 20% o'r cymhwyster)
Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd.

Uned 2: Arholiad ysgrifenedig:

1½ awr (80 marc - 20% o'r cymhwyster)
Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff

Uwch

Uned 3: Arholiad ysgrifenedig:

2 awr (90 marc - 25% o'r cymhwyster)
Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd

Uned 4: Arholiad ysgrifenedig:

2 awr (90 marc - 25% o'r cymhwyster)
Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiwn A - Imiwnoleg a Chlefydau

Uned 5: Arholiad Ymarferol

(50 marc - 10% o'r cymhwyster)

Tasg Arbrofi (20 marc) a Thasg Dadansoddi Ymarferol (30 marc)

Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Bioleg yw un o'r pynciau Safon Uwch mwyaf poblogaidd yn y Wlad. Mae'n ddewis pwnc gwych i ddisgyblion sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn proffesiynau lechyd a Chlinigol, fel Meddygaeth, Deintyddiaeth, Gwyddor Filfeddygol, Ffisiotherapi, Fferylliaeth, Optometreg, Nyrsio, Sŵleg, Bioleg Forol neu Wyddoniaeth Fforensig. Felly, pa bynnag faes y byddwch chi'n gweithio ynddo yn y pen draw, bydd Bioleg yn gwrw gwerth chweil a heriol iawn, a fydd yn datblygu llawer o'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer gyrfa lwyddiannus.

"Bioleg yw'r pwnc fwyaf defnyddiol a pherthnasol i astudio yn Safon Uwch. Mae'n cael ei ystyried yn drylwyr ac yn fanwl, gan roi mewnwelediad i iechyd a'r byd naturiol."

James Watt

